

# Casgliad o wybodaeth am y Dyddiadurwr DO Jones a'i fferm

Enwau caeau Ty Uchaf, Padog yn ôl John Jones, mab “DO”



**TEYRNGED I D.O. a ddarllenwyd gan Hywel Tai Duon ddydd ei angladd yn 1999**

Braint i mi heddiw ydy cael cyflwyno teyrnged fer i D.O - brenin Cwm Eidda. Mi fydd yma fwllch mawr ar ei ol o mewn llawer maes ond yn Ty Uchaf fydd y bwllch mwyaf un. Gaf i estyn fy nghydymdeimlad cywiraf a chwi oil fel teulu yn eich colled a'ch hiraeth, Brenda yn colli cymar oes, a chwithau'r plant a'ch teuluoedd John, Lowri, Delyth, Gwawr, Dafydd, Gerallt a Rheinallt yn colli tad a thaid annwyl iawn.

Ganed D.O. yma yn 'Sbyty yn 'Rafon Bach yn mis Mai 1920. Symud wedyn i Ty'n Lon ac yn unarddeg oed troi am Gwm Eidda i fferm Bryn Ddraenen. Pan yn ddeunaw oed, croesi'r afon Eidda i Ty Uchaf ac yno treuliodd D.O. ei fywyd yn amaethu nes daeth yr alwad i groesi afon arall y dyddiau diwethaf yma.

Fel bardd yn anad dim arall y cofiwn i am D.O. Does 'na ddim modd cyfri sawl pennill ac englyn a gyfansoddodd D.O. i gyfarch hwn ac arall ar achlysuron arbennig. Deuai'r ceisiadau yn gyson ac ni chlywyd am D.O. yn gwrthod neb. Byddai troeon trwstan yn ei gynhyrfu fel bardd ac mae'r "Odyn" dros y blynyddoedd yn frith o'i waith. Dileit mawr arall gan D.O. oedd bod yn aelod o dim Ymryson y Beirdd Nant Conwy a enillodd dlws barddas ddwy waith, yn Eisteddfod Wrecsam 1977 a Chaemarfon 1979. Nhw hefyd gipiodd y gyfres gyntaf o 'Dalwrn y Beirdd' ar Radio Cymru yn 1980. Er ei lwyddiant ar lefel genedlaethol roedd D.O. yn gefnogwr selog i eisteddfodau bach y wlad gyda chaneuon cocos, limrigau, telynegion ac englynion dirifedi. 'Roedd ganddo wastad ffugenwau gwreiddiol o "Ddoctor Wilcox" i "Fendigeidfran". Bu'n ysgrifennydd Eisteddfod 'Sbyty am flynyddoedd a gwyddom y byddai wrth ei fodd yn gweld yr eisteddfod yn dal ati yn y mileniwm newydd.

Urddwyd D.O. a Choban Werdd yr Orsedd yn 1959 a'r Goban Las yn 1960. Gwisgodd ei Goban Las a balchder adeg cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst yn 1989. Mae bardd, wrth gwrs, yn cael rhyw ryddid gwahanol i ni feidrolion. Tra byddem ni'n cysgu yn yr oriau man byddai D.O. yn llosgi'r gannwyll ac efallai yn gorffwysu ar adegau eraill. Rhyddid wedyn i fynd yn sownd hefo'r Bol Aur yn yr un hen le bob blwyddyn nes bedyddio'r fan y 'twll barddoni'.

'Roedd gan D.O. feddwl y byd o Gapel Padog. Bu'n athro ar y dosbarth hynaf yn yr Ysgol Sul am ddeugain mlynedd. Yn ystod y chwedegau D.O. oedd tacsî Ysgol Sul Cwm Eidda hefo'r 'Yellow Submarine'- Fford Consyl melyn mawr gyda'r rhif VDM 7. Fe gyrhaeddai Padog yn llusgo'r llawr -dau o Bryn Ddraenen, dau o Eidda, chwech o Ty Ucha, dau o Ben y Geulan a thri o Fron Ddu ac os ydi fy syms i'n iawn...llond car golew. Fe aeth y dosbarth hynaf ati i ddarllen y Beibl o glawr i glawr a chymerodd yr orchwyl dros naw mlynedd i'w

chwblhau. Deuai'r athro a phaced o 'Roses' i'r darllenwyr bob sul a dyna sut y cawsom ni'r egni i orffen y dasg. Sefydliad arall a oedd yn agos at galon D.O. oedd Neuad Goffa Ysbyty 'ma. Bu'n ysgrifennydd am 43 o flynyddoedd. Ceiswyd dwyn 'cfaydig o berswad ar D.O. i leihau peth o faich y swydd ond ei ateb bob tro fyddai "Mae gweithwyr gorau'r nef \ti marw yn eu gwaith". Ac felly y bu. Fe barhaodd gyda gwaith y Neuadd hyd y ddiwedd ei oes. Bu hefyd yn aelod o Gyngor Plwy Eidda am bron i hanner can mlynedd ac am gyfnod ar hen gyngor Nant Conwy.

Allwn ni ddim son am fywyd DO. heb son am ei ddyddiaduron. Bu'n cadw dyddiadur bob dydd yn ddi-dor ers 1934 - cyfanswm o 65 o flynyddoedd. Cofnodai'n gyntaf ei fywyd bob dydd o gwmpas y fferm, a hefyd gweddill y teulu. Yna byddai'n mynd ati i gofnodi digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd erbyn hyn yn adlewyrchiad o dreigl yr amseroedd yn ystod ei oes. Mae ei ddyddiaduron yn gofnod o'r newid a fu ym myd amaeth o fyd y pladur a'r injan ddyrnu i fyd y bymau mawr. Mae'r cyfan rhwng cloriau ei ddyddiaduron a phleser i D.O. oedd cael rhannu eu cynnwys ar dudalennau'r "Odyn". Mae arswyd y rhyfel yn amlwg yn y dyddiaduron nes bod dyn yn amau weithiau oedd hi'n werth i bobl Cwm Eidda godi tatws gan gymaint o fomiau oedd yn disgyn.

Mi roedd D.O. yn gofiadur wrth reddf. Gwelodd yn gynnar werth cadw cofnod o ddigwyddiadau megis hanes Pererindodau Capel Padog ers y gyntaf yn 1971. Mae'r holl gofnodion wedi eu cadw'n daclus ac yn drefnus drwy gyfrwng llun a Hen yn ei lyfrau twt.

Yn ystod y rhyfel roedd D.O. yn aelod o'r 'Home Guard' a tasa Hitler wedi glanio ar gae Bod Ifan 'ma fasa hi ddim yn dda arno fo. Un tro cafodd 'Home Guard' 'Sbyty y newydd fod Almaenwyr wedi parachwtio i lawr ar Benmachno. 'Full alert' wedyn am y Migneint a gorwedd yn un rhes yn y grug wrth Ty Cipar tan i'r wawr dorri a'r barrug yn flanced wen drostynt. Ond 'false alarm' oedd hi diolch byth. Dro arall 'mock invasion' o Fetws y Coed. Wrth i fyddin 'Home Guard' 'Sbyty ddynesu, gwaeddodd rhyw Sais oedd yn cuddio yng ngwrych ei ardd "You'r dead, mate!" Heb yn wybod iddo 'roedd na un o 'Sbyty tu ol iddo yn llechu yn ei batshyn tatws a lefarodd y geiriau anfarwol "You'r deader!"

Yn ystod y cyfnod yma daeth D.O. yn giamstar ar y 'morse code' yn wir yn un o'r goreuon yn y cyfrwng hwnnw. Flynyddoedd yn ddiweddarach daeth cyfrwng cyfathrebu arall i'w ddiddori sef y 'CB' neu Radio'r Werin. 'Roedd gan bawb ffug enw ar y tonfeddi ac yn teyrnasu yn y Ty Ucha' roedd "Owain Glyndwr" ei nun sef ffug enw D.O. wrth gwrs.

Yn ystod y cyfnod yma daeth D.O. yn giamstar ar y 'morse code' yn wir yn un o'r goreuon yn y cyfrwng hwnnw. Flynyddoedd yn ddiweddarach daeth cyfrwng cyfathrebu arall i'w ddiddori sef y 'CB' neu Radio'r Werin. 'Roedd gan bawb ffug enw ar y tonfeddi ac yn teyrnasu yn y Ty Ucha' roedd "Owain Glyndwr" ei nun sef ffug enw D.O. wrth gwrs.

Mae'r ffug enw yma yn dod a ni at elfen bwysig yn ei gymeriad sef ei Gymreictod. 'Roedd D.O. yn Gymro cadarn a wnaefh ddiwmod da o waith dros Gymru. 'Roedd y plant yn son y noson o'r blaen fel y byddai D.O. yn anwybyddu seremoniau mawr y teulu brenhinol. Bydd yn gollod fawr inni fel cangen y Blaid am ein trysorydd a'n aelod hynaf.

Fel Cymro ymhyfrydai D.O. ym mynyddoedd ei wlad a phan oedd yn iau fe gerddodd lawer ar fynyddoedd Eryri, ac yn falch o ddweud iddo fod ar ben y Wyddfa o leiaf ddeg gwaith.

Ond fedrwyh chi ddim caru'ch gwlad heb garu'ch bro eich nun a Chwm Eidda oedd cariad cyntaf D.O. Fo oedd y Brenin a'r Cwm oedd ei deyrnas. Dotiai bob gwanwyn at y ffrwydriad o fywyd gwyllt a lenwai'r cwm. Ymddiddorai'n arbennigyny blodau prin yn Wern Ty Ucha' Sylweddolodd yn gynnar fod tegeiriannau ac ysgall anghyffredin ymysg banadl y Wern ac aeth ati ar ei liwt ei nun i warchod y trysorau yma. Hyn oil cyn bod son am SSSI na mudiadau gwarchod natur. 'Roedd D.O. yn naturiaethwr wrth reddf ac wrth ei fodd yn crwydro'r wernydd. Sylweddolodd D.O. hefyd fod nifer yr adar bach yn raddol ostwng ac mai'r brain tyddyn oedd y gelyn. Cafodd afael ar gratsh brain a mynd a fo i'r cae ar gefn y bol aur. Fe ddaliodd gannoedd o frain hefo'r ddyfais anhygoel yma a gwnaeth fwy na'i ran dros gadwraeth yng nghefn gwald.

Bydd llawer ohonoch yn cofio D.O, o'i weld yn siopa yn Llanrwst ar ddydd Mawrth. 'Roedd ganddo rownd siopa benodol a fyddai bob tro yn gorffen yn Kwiks. Oherwydd galwadau eraill ni fyddai yn cyrraedd tan ddiwedd pnawn pan fyddai'r bara'n prnhau. Lawer gwaith y dychwelodd adref gan ddweud y drefn yn arw fod Season dre wedi sbyddu'r bara sleis i gyd o Kwiks! Mi 'roedd D.O. yn gwsmer da i'r siop werthai feiros yn y dre gan ei fod yn mynd drwy focseidiau ohonynt.

Wel, dyna ichi gipolwg ar gymeriad addfwyn D.O, y gwr a roddodd gymaint heb ddisgwyl dim yn ol. Er ei waith a'i amryfal ddiddordebau, blaenoriaeth D.O. bob amser oedd ei deulu. 'Roedd yn wr a thad annwyl, yn daid a brawd tyner ac fel pennaefh mwyn yn y Ty Ucha'. Yno yn y misoedd olaf y cai'r tendans gorau, a'r unig nyrs a wnai'r tro oedd Brenda. Cafodd dreulio ei ddyddiau olaf yng Nghwm Eidda a pha ffordd well i ddiweddu gydai'i englyn i'r Cwm

Llain o gwm pellenig yw - cwm y gog  
Cwm y gan ddiledryw,  
Odiaeth o brydferth ydyw  
Er ei fwyn y caraf fyw.